Archwilio Cymru
Audit Wales

# **Cyngor Gwynedd –**
# Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021



Dyma grynodeb o'n harchwiliad ar gyfer Cyngor Gwynedd. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwiliad Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r crynodeb o'n harchwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 cynghorydd sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru 40
- Annibynnol 20
- Llais Gwynedd 6
- Annibynnol Unedig Gwynedd 3
- Aelod Unigol 2
- Propel 2
- Llafur 1
- Democratiaid Rhyddfrydol 1

Gwariodd y Cyngor £244.2 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, y 12fed gwariant uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru.

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyled.

| **Ffeithiau allweddol** |
| --- |
| Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £99.6 miliwn yn ei gronfeydd ariannol wrth gefn y gellid eu defnyddio[2]. Mae hyn yn cyfateb i 40.8% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y ganran uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru[3]. |
| Bernir bod gan Gyngor Gwynedd 2 o'r 191 ardal ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef y chweched isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru[4]. |
| Rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 5.3% rhwng 2020 a 2040 o 124,670 i 131,314, gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant, cynnydd o 0.9% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 20.8% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd[5]. |

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Rydym wedi cwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

  Roedd yn rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac roedd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau y cedwir cofnod priodol o wariant arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

  Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod wedi gwneud hyn.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[2] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r pwrpas wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Dyma gyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Mae'n eithrio cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

[3] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[5] Ffynhonnell: Stats Cymru

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac yn gweithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, ac yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym yn dibynnu ar waith archwilio arall hefyd, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Gwynedd

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 19 Hydref 2021.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a chyda'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 28 Mai 2021 yn dda iawn ar y cyfan.
- gwnaed newidiadau i ddatganiadau ariannol drafft y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2021.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae'n gyfrifol hefyd am ardystio nifer o ffurflenni a hawliadau grant. Mae'r archwiliad o ffurflenni Pensiwn Athrawon ac Ardrethi Annomestig wedi'i gwblhau. Mae ein gwaith ar archwilio'r ffurflen Cymhorthdal Budd-dal Tai ar y gweill ar hyn o bryd. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
- mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'r dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2020-21 wedi'i gwblhau ar 19 Hydref 2021.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom newid dull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod mae crynodeb o rywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae llawer ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu dysgu trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi rhywfaint o feddwl, ac ymarfer cyfnewid. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma ar Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom hefyd gyhoeddi rhai arsylwadau gan yr Archwilydd Cenedlaethol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel yr arbedwyd trwy orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel rhan o’n harchwiliad o asesiadau perfformiad cynghorau yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21, gwnaethom nodi llai o gyfeirio at wybodaeth perfformiad cymharol. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhywfaint o gasglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian, a bydd yn her i gynghorau ystyried hynny, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Gwnaethom gynnal yr asesiad hwn gan fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Daeth ein hadroddiad i’r casgliad bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond erys sawl her ariannol, gan gynnwys lliniaru effaith COVID-19, trawsnewid a gwella gwasanaethau, a datrys heriau ariannol.

Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol hefyd: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a’r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Cynllunio adferiad

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi cynllunio adferiad. Gwnaethom gyflawni'r gwaith hwn yn barhaus, gan ddarparu adborth amser real a pharhaus lle bo hynny'n briodol. Ein canfyddiadau allweddol oedd:

- bod gwasanaethau'r Cyngor a gafodd eu hatal dros dro wedi ailddechrau yn gyffredinol, a bod staff yn parhau i weithio gartref i raddau lle bynnag y bo modd.
- bod y Cyngor wedi cyflwyno rhai swyddogaethau arloesol i gefnogi dinasyddion drwy'r pandemig, fel desg galwadau cyswllt a oedd yn cymryd camau cyflym i gefnogi llesiant dinasyddion. Mae angen i'r Cyngor werthuso'r swyddogaethau 'dros dro' hyn yn iawn er mwyn sicrhau'r dysgu mwyaf posibl a deall y buddion posibl ar gyfer y tymor hwy.
- mae cyfathrebu'r Cyngor â thrigolion Gwynedd wedi bod yn ymateb yn gyflym i argyfwng sy'n datblygu'n gyflym ac mae ei ddulliau cyfathrebu gyda'i staff wedi gwella yn ystod y pandemig.
- bod y Cyngor wedi trosglwyddo'n effeithiol ac yn effeithlon i gyfarfodydd dwyieithog ar-lein ar gyfer uwch swyddogion a chynghorwyr. Ar hyn o bryd, mae'n paratoi trefniadau i ganiatáu ar gyfer cyfarfodydd cyngor llawn, cabinet, cynllunio a chraffu hybrid gan ystyried ystyriaethau mynediad cyhoeddus a chydraddoldeb.
- rydym wedi gweld datblygiad Dangosfwrdd Ymateb Brys Coronafeirws mewn cyfnod cymharol fyr gydag adnoddau cyfyngedig i ddal gwybodaeth allweddol am breswylwyr a risgiau corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen am wybodaeth fwy amserol i reoli gwasanaethau ac mae'n diweddaru ei drefniadau rheoli perfformiad, sy'n cynnwys defnyddio mesurau perfformiad a dangosfyrddau ychwanegol.
- wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn ystyried, pan fydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatáu, ddull hybrid o weithio gartref, yn y swyddfa a gweithio ar safle. Lle mae staff yn gweithio mewn swyddfeydd neu ar safle, bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, gan edrych ar ba addasiadau y mae'n rhaid eu gwneud a sut y gall staff weithio'n ddiogel orau.

## Ffordd Gwynedd – Adolygiad Lefel Uchel

Gwnaethom gynnal adolygiad lefel uchel o Ffordd Gwynedd i sefydlu sut yr oedd yn ymwreiddio, yn sbarduno newid diwylliannol ac yn ystyried a oedd rhwystrau i gynnydd pellach. Daethom i'r casgliad yn ein llythyr at y Cyngor, fod Ffordd Gwynedd yn ymwreiddio'n dda ac yn sbarduno newid diwylliannol, fodd bynnag, mae rhai camdybiaethau a rhwystrau cyffredin sy'n arafu cynnydd Ffordd Gwynedd. Adroddodd y Cyngor i'w Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2021 eu bod wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i weithio gyda'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad o sut ac i ba raddau y mae egwyddorion ffordd o weithio 'Ffordd Gwynedd' wedi'u hymwreiddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

## Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio a oedd cynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) fel partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithredu'n effeithiol wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yn strategol. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus; mae hyn yn cael ei wneud yn anoddach gan brosesau cenedlaethol cymhleth, gan arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniad ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae gan gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflenwi y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gwella gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

Wrth gloi'r gwaith hwn, gwnaethom gydnabod bod y cyfrifoldeb am yr heriau cyfredol yn y trefniadau comisiynu yn eang. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith cenedlaethol sy'n gymhleth, ac mae gan bartneriaid lleol gyfrifoldeb am y ffordd y mae polisi a chanllawiau cenedlaethol yn cael eu gweithredu. Felly rydym wedi adrodd yn lleol i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru, yn argymell camau y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru

Yn ystod 2020-21, gwnaethom geisio ateb y cwestiwn: ‘Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â'r amgylchiadau economaidd sy'n newid?’ Daethom i’r casgliad yn ein hadroddiad bod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a’i fod yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu; gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb.

Cyhoeddodd CIW eu llythyr Archwiliad Sicrwydd awdurdod lleol 2021 ym mis Tachwedd 2021.

Ataliodd Estyn ei rhaglen arolygu ysgolion yn ystod y flwyddyn 2020-21 a chadw mewn cysylltiad â darparwyr addysg o bell.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym yn cynnal astudiaethau ledled y sector llywodraeth leol hefyd i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi’r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau Dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbrisio ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, rhoddodd awdurdodau lleol flaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu lle manwerthu newydd a mwy o faint. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar

lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, gydag un o bob saith siop ar y stryd fawr yng Nghymru bellach yn wag, er gwaetha'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiad o £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y gallu i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau lleol gorau, mae angen alinio ac integreiddio polisïau a chydweithio, a blaenoriaethu adnoddau i ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2021-22

Edrychwyd hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r cyngor. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a defnydd o'i adnoddau.

Y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae'n gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys ffocws ar:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau lleihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Sefyllfa ariannol
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
- Archwiliad adrodd am welliant.
- Adolygiad o'r fframwaith Rheoli Perfformiad yng Nghyngor Gwynedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chaiff gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.